# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Dileu elw o ofal plant - gweithredu dyletswydd flynyddol cynllun digonolrwydd awdurdodau lleol** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Yr Is-adran Galluogi Pobl** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Alistair Davey** |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/Y Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **1 Ebrill 2026** |

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

### Y mater dan sylw

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal'. Bwriad y polisi yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn llety ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei dynnu allan fel elw, ond yn hytrach bod unrhyw warged yn cael ei hail-fuddsoddi yn ôl i'r system er mwyn cefnogi canlyniadau, gwasanaethau a datblygiad proffesiynol gwell.

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn gyfraith yng Nghymru. Mae'n cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt gyfyngu ar dynnu elw gan darparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad").

Mae Deddf 2025 yn amlinellu cyfres o drefniadau, y bwriedir i rai ohonynt ddod i rym o 1 Ebrill 2026 ymlaen, a fydd yn y pen draw yn cyfyngu ar ddarpariaeth y gwasanaethau hyn (ac eithrio darpariaeth awdurdodau lleol) i endidau 'nid-er-elw' sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC').

Er mwyn sicrhau nad yw'r polisi yn cael ei danseilio gan arferion sy'n groes i'w ysbryd a'i fwriad, mae Deddf 2025 hefyd yn darparu y gall unrhyw daliadau afresymol neu anghymesur a wneir gan ddarparwr nid-er-elw gwasanaethau plant o dan gyfyngiad gael eu cymryd i ystyriaeth gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol i gael ei gofrestru.

Mae Deddf 2025 hefyd yn mewnosod adran 75A newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun ('cynllun digonolrwydd blynyddol') ynglŷn â'u dyletswydd adran 75(1). O 1 Ebrill 2026 ymlaen, bydd dyletswydd digonolrwydd presennol awdurdodau lleol yn adran 75(1) yn cael ei diwygio fel -

- bod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety i'r plant sy'n derbyn gofal ganddynt.
- bod y ddyletswydd yn ymestyn i lety yn ardal yr awdurdod neu'n agos at yr ardal honno, gan gydnabod y gall lleoliad y tu allan i'r sir fod yn nes at gymuned gartref y plentyn dan rai amgylchiadau.
- bod y llety yn gorfod bod gyda darparwyr sydd naill ai'n awdurdodau lleol neu sy'n bodloni'r gofynion nid-er-elw.
- bod awdurdodau lleol yn gorfod ystyried y budd o gael amrywiaeth o lety yn eu hardaloedd neu yn agos atynt sy'n diwallu anghenion gwahanol y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Mae hyn yn disodli'r ffocws blaenorol ar nifer y

darparwyr, sy’n golygu y gellir bodloni digonolrwydd hyd yn oed os yw’r llety yn cael ei ddarparu gan un darparwr (megis yr awdurdod lleol ei hun) cyn belled â’i fod yn diwallu gwahanol anghenion y plant sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod.

Mae Deddf 2025 hefyd yn mewnosod adrannau 75B, 75C a 75D newydd yn Neddf 2014. Mae adran 75B yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno drafft o’r cynllun digonolrwydd i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo, tra bod adran 75C yn nodi’r weithdrefn sydd i’w dilyn os na chaiff y cynllun drafft ei gymeradwyo. Mae adran 75D yn ei gwneud yn ofynnol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol y mae cynllun digonolrwydd blynyddol wedi ei wneud ar ei chyfer, bod rhaid i’r adroddiad blynyddol a lunnir gan awdurdod lleolo dan adran 144A nodi -

(a)sut y mae camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno wedi cynyddu (neu sut y disgwylir iddynt gynyddu) faint o lety sydd ar gael i’r awdurdod sy’n bodloni’r gofynion ym mharagraffau (a) i (b) o adran 75(1);

(b)nifer y ceisiadau a wnaeth yr awdurdod lleol yn y flwyddyn ariannol honno am gymeradwyaeth i leoli plant mewn lleoliad atodol yn unol ag adran 81B;

(c)y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau a ddarperir o dan baragraff (b) a nifer y ceisiadau yr oedd yr awdurdod lleol wedi amcangyfrif o dan adran 75A(3)(d)(i) y byddai’n eu gwneud yn ystod y flwyddyn.

Mae’r adran 75A newydd hefyd yn cynnwys pwerau newydd i wneud rheoliadau ynghylch:

- is-adran (2)(a) ynglŷn â ffurf cynlluniau.
- is-adran (3)(d)(iii) a (iv) ynglŷn â gwybodaeth am ddarparwyr er elw sy’n darparu llety yng Nghymru, ac unrhyw wybodaeth i’w rhagnodi mewn rheoliadau ynghylch darparwyr er elw sy’n darparu llety yn Lloegr.
- is-adran (3)(f) ynglŷn â gwybodaeth arall sydd i’w rhagnodi mewn cynlluniau.

Bwriad cynlluniau digonolrwydd blynyddol yw hyrwyddo a chefnogi dull cydlynol o gynllunio a darparu digonolrwydd o leoliadau nid-er-elw o fewn awdurdodau lleol, yn unol ag anghenion lleol, ac yng nghyd-destun newid cydbwysedd darpariaeth gofal a chymorth yn ehangach. Bydd gwneud cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ddigonolrwydd yn ofynnol yn sicrhau bod cynlluniau awdurdodau lleol yn dryloyw ac yn hygyrch i randdeiliaid allweddol eraill, gan hyrwyddo mwy o gydgysylltu ac integreiddio.

**<u>Camau gweithredu a gynigir</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan yr holl bwerau newydd i wneud rheoliadau o fewn Adran 75A a restrir uchod.

Byddai rheoliadau o dan Adran 75A (2)(a) yn rhagnodi bod rhaid i gynlluniau digonolrwydd fod ar ffurf templed a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Gallai rheoliadau o dan Adran 75A (3)(d)(iii) a (iv) ynghylch gwybodaeth am ddarparwyr sy’n debygol o gael eu henwi mewn ceisiadau ar gyfer lleoliad atodol gynnwys o bosibl

- hunaniaeth a statws cyfreithiol y darparwr: Enw’r darparwr, cyfeiriad cofrestredig, rhif y cwmni, a chadarnhad o statws er elw / nid-er-elw.

- y math o wasanaeth a ddarperir: A yw'r darparwr yn gweithredu cartrefi plant, gwasanaethau maethu, neu lety diogel.
- lleoliad a chapasiti: Lleoliad (brasamcan ar gyfer anonymeiddio) y cyfleusterau, nifer y lleoedd cofrestredig, a chwmpas daearyddol.
- cynlluniau ailsefydlu: Os yw'r darparwr yn ailsefydlu fel endid nid-er-elw, manylion y broses a'r amserlen.

Byddai rheoliadau o dan Adran 75A(3)9(f) yn nodi nifer o elfennau 'craidd' pellach i'w cynnwys mewn cynlluniau digonolrwydd yn ychwanegol at y rhai a nodir eisoes yn S75A(3). Gallai'r rhain gynnwys:

- cyd-destun gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar broffil anghenion plant a phobl ifanc
- data a thueddiadau yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal (cyfredol a rhagamcanol)
- proffil lleoliad plant sy'n derbyn gofal a'r ddarpariaeth leoliad bresennol
- rhagamcanion galw yn y dyfodol (isafswm ac uchafswm)
- manylion am ddarpariaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu sydd ar gael iddo
- data ar nifer y plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir/wlad
- data ar nifer y plant mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru
- data ar nifer y plant sy'n destun Gorchmynion Amddifadu o Ryddid
- risgiau allweddol a chamau lliniaru
- bylchau mewn data a sut y bydd y rhain yn cael eu datrys
- cysylltiadau â chynlluniau perthnasol Llywodraeth Cymru
- cynlluniau'r gweithlu

**<u>Sut mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cymhwyso, drwy gydol y cylch polisi a chyflawni</u>**

### 1. Hirdymor

Mae dull Llywodraeth Cymru o gael gwared ar elw o ofal plant yn adlewyrchu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal cynaliadwy a theg. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr weithredu ar sail nid-er-elw, nod y polisi yw sicrhau bod adnoddau yn cael eu hailfuddsoddi i wella canlyniadau i blant yn hytrach na chael eu dosbarthu fel elw. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod hirdymor o greu system gofal sefydlog sy'n blaenoriaethu llesiant yn hytrach nag elw ariannol.

Bwriad y rheoliadau arfaethedig ynghylch cynlluniau digonolrwydd blynyddol yw sicrhau manteision dros y tymor hir, drwy gefnogi'r fframwaith cynllunio digonolrwydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

- Asesu anghenion cyfredol a rhagamcanol, gan gynnwys tueddiadau o ran plant sy'n derbyn gofal, galw yn y dyfodol, a phwysau disgwyliedig o ran lleoliadau.
- Cynllunio ar gyfer ystod o lety o fewn neu ger eu hardal, gan adlewyrchu llesiant hirdymor plant drwy leihau pellter diangen o'u cartref.
- Datblygu cynlluniau gweithlu, gan gydnabod gwydnwch y gweithlu yn benderfynydd hirdymor o sefydlogrwydd ac ansawdd lleoliad.

Bydd cynlluniau digonolrwydd blynyddol yn galluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i werthuso cynnydd hirdymor, nodi newidiadau yn y galw a'r ddarpariaeth, a llywio datblygiad polisïau yn barhaus. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion hirdymor yr agenda

dileu elw a thrawsnewid yn gyffredinol, sy'n pwysleisio gwelliannau parhaus mewn canlyniadau ac ailfuddsoddi er budd y cyhoedd

## 2. Atal

Nod y polisi dileu elw ehangach yw ceisio atal risgiau sy'n gysylltiedig â gofal sy'n cael ei ysgogi gan elw, megis ansefydlogrwydd posibl mewn lleoliadau oherwydd penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan y farchnad, a chostau cynyddol.

Bydd y rheoliadau arfaethedig ynghylch cynlluniau digonolrwydd blynyddol yn cefnogi atal drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y broses o ragfynegi anghenion yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r awdurdodau lleol amcangyfrif nifer a math y lleoliadau sydd eu hangen, gan eu galluogi i gynllunio capasiti ymlaen llaw yn hytrach na dibynnu ar leoliadau brys neu anaddas.
- Gorchymyn dadansoddiad o risgiau, bylchau a phwysau gweithlu, yn benodol bylchau mewn darpariaeth, gwendidau a risgiau data, ynghyd â'r camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.
- Cynnwys camau rhag-gynllunio i ddatblygu darpariaeth drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi sut y byddant yn sicrhau digonolrwydd yn y blynyddoedd i ddod,  gwaith i siapio'r farchnad yn gynnar, meithrin gallu a buddsoddi, gan atal diffygion rhag digwydd.

Bydd ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ddatblygu'r templed a bennir mewn rheoliadau yn sicrhau bod yr elfennau ataliol yn adlewyrchu realiti gweithredol a phrofiad rheng flaen.

## 3. Integreiddio

Fel y cyfeirir yn yr Asesiad Effaith Integredig a gwblhawyd ar gyfer dileu elfennau elw Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar y pryd, mae'r diwygiadau hyn yn rhan o'r gwaith dileu elw a'r Rhaglen Drawsnewid ehangach sy'n cysylltu ac yn cyfrannu at nifer o ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Llywodraeth a Datganiad Llesiant y Rhaglen Lywodraethu. Mae trefniadau llywodraethiant wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r rhaglen drawsnewid ehangach hon.  Rydym wedi defnyddio dull tair haen i ddarparu'r cyfeiriad a'r craffu cywir i gyflawni ein nodau ac i sicrhau cysylltiadau ag agendâu polisi perthnasol eraill. Mae gan y strwythur dri grŵp allweddol:

i. Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol i oruchwylio'r Rhaglen Drawsnewid, gan ddarparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd gwleidyddol o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.
ii. Grŵp Cyflawni Trawsnewid i arwain y gwaith o fwrw ymlaen â'r Rhaglen Drawsnewid erbyn 2026.
iii. Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal i ddarparu arbenigedd ychwanegol wrth inni ystyried tystiolaeth, deddfu a datblygu rhaglenni ymarferol ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad hwn.

## 4. Cydweithio

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 9 Chwefror a 7 Ebrill 2026 yn ymdrin â'r dull gweithredu arfaethedig a chynnwys posibl y rheoliadau sy'n ymwneud â chynlluniau digonolrwydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- defnydd o'r pwerau gwneud rheoliadau o dan yr adran 75A newydd:
- y dull a'r prosesau arfaethedig sy'n ymwneud ag:
  - Adran 75B Newydd - Dyletswydd i sicrhau llety: gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo cynllun digonolrwydd, ac
  - Adran 75C Newydd - Dyletswydd i sicrhau llety: y weithdrefn os nad yw'r cynllun drafft yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru

- Adborth cyffredinol ar weithredu'r gofynion eraill sy'n ymwneud â chynlluniau digonolrwydd o fewn yr adran 75 A newydd, gan gynnwys:

  - Gofynion i amcangyfrif nifer y plant a fydd yn derbyn gofal ganddo,
  - faint o lety a ddarperir gan rieni maeth awdurdodau lleol a chartrefi plant a fydd ar gael i'r awdurdod lleol, a
  - nifer y ceisiadau y mae'r awdurdod lleol yn disgwyl eu gwneud am gymeradwyo lleoliadau atodol yn unol ag adran 81B a fewnosodwyd yn Neddf 2014.

Yn fwy cyffredinol, mae datblygu'r diwygiadau wedi golygu cydweithredu'n agos ag awdurdodau lleol drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) gyda rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n cael diweddariadau drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith ategol. Bwriedir cydweithio'n parhaus drwy gydol y gwaith gweithredu, yn enwedig wrth ddatblygu'r templed cynllun digonolrwydd arfaethedig a chyfathrebu'r newidiadau allweddol ar y cyd i awdurdodau lleol a sicrhau y gall ADSS Cymru eu cefnogi i fodloni'r gofynion newydd.

### 5. Cyfranogiad

Fel uchod, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion rhwng 9 Chwefror a 7 Ebrill 2026, a oedd yn gofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, roedd awdurdodau lleol yn ymwneud yn agos o'r cychwyn cyntaf drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag ADSS Cymru, ddaeth â grŵp pwrpasol o benaethiaid gwasanaethau awdurdodau lleol ynghyd i siapio a chraffu ar y dull arfaethedig o ymdrin â chynlluniau digonolrwydd. Rhoddodd y grŵp hwn adborth manwl ar strwythur y cynlluniau, y prosesau cyflwyno a chymeradwyo, a'r defnydd posibl o bwerau gwneud rheoliadau.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut cafodd y bobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Wrth ddatblygu'r rheoliadau arfaethedig ynghylch cynlluniau digonolrwydd blynyddol, ymgysylltwyd â'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a chwblhawyd ymgynghoriad ffurfiol.

Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolaeth eang o bob rhan o'r sectorau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gofal nid-er-elw a darparwyr cartrefi gofal plant a gwasanaethau maethu yn y sector er elw. Mae Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith wedi cael diweddariadau ar y gwaith hwn

ar adegau allweddol a chafodd yr aelodau gyfle i gyfrannu'n ffurfiol drwy'r broses ymgynghori.  Bydd Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig yn parhau i gael eu cynnwys drwy gydol y gwaith hwn gyda chyfleoedd i roi adborth i swyddogion.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

O ystyried eu natur dechnegol, disgwylir mai cyfyngedig fydd effaith  y rheoliadau arfaethedig ynghylch cynlluniau digonolrwydd blynyddol ar ddiwylliant a'r Gymraeg, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru.

O ran yr effeithiau cadarnhaol a ragwelir drwy ei gwneud yn ofynnol cynnal dadansoddiad cyson o anghenion, tueddiadau galw, risgiau, a chapasiti'r gweithlu, bydd y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i ragweld pwysau ac i siapio'r darpariaeth yn fwy effeithiol, gan wella'r tebygolrwydd y gellir lleoli plant yn agos at eu cartrefi ac mewn lleoliadau sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r strwythur a'r cysondeb gwell hwn ledled Cymru hefyd yn gwella tryloywder ac atebolrwydd, gan greu sylfaen gryfach ar gyfer goruchwylio a chymharu cenedlaethol. Mae'r gofyniad i alinio cynlluniau digonolrwydd â dogfennau statudol presennol - megis Asesiadau Poblogaeth, Cynlluniau Ardal ac Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad - yn cryfhau integreiddio ymhellach ac yn annog dull system gyfan o wella gofal.

O ran effeithiau negyddol posibl, mae'r rheoliadau yn creu gofynion newydd ar awdurdodau lleol. Mae cynhyrchu cynlluniau digonolrwydd blynyddol manwl yn rhwymedigaeth weinyddol a dadansoddol sylweddol, yn enwedig i awdurdodau llai. Mae risg hefyd o ddyblygu â dogfennau strategol presennol oni bai bod canllawiau yn ddigon clir. Gall heriau o ran sicrhau ansawdd data cyson, yn enwedig wrth rhagfynegi a nodi bylchau, hefyd beryglu'r gallu i dynnu cymhariaeth rhwng cynlluniau.  Bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol posibl hyn trwy weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i lunio'r templed a'r canllawiau cysylltiedig.  Dylai hyn sicrhau bod y gofynion yn ymarferol ac yn realistig gyda chanllawiau a phrosesau wedi'u cydgynllunio gyda'r rhai sy'n ofynnol i weithredu'r rheoliadau.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

O ystyried bod y newidiadau yn y rheoliadau arfaethedig ynghylch cynlluniau digonolrwydd blynyddol yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â phrosesau presennol, ni ragwelir y byddant yn cael effaith sylweddol ar y saith nod llesiant.  Fodd bynnag, nodir effeithiau posibl isod, mewn rhai achosion sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu elw ehangach:

- **Cymru Ffyniannus –**  Mae'r rheoliadau arfaethedig yn cryfhau cynllunio hirdymor a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus drwy roi gofynion data cliriach i awdurdodau lleol a templed cyson, gan eu helpu i gyfeirio buddsoddiad tuag at y mathau cywir o ddarpariaeth leol ac osgoi lleoliadau argyfwng neu bell aneffeithlon, tra bod canllawiau cydgynhyrchu yn lleihau costau gweinyddol diangen.
- **Cymru Gydnerth** – Drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddadansoddi anghenion, risgiau, heriau'r gweithlu a bylchau digonolrwydd yn y dyfodol, mae'r rheoliadau

arfaethedig yn helpu i adeiladu system gofal fwy sefydlog, addasadwy sy’n gallu gwrthsefyll pwysau’r farchnad yn well a lleihau’r tarfu i blant, tra bod canllawiau a rennir yn helpu awdurdodau i reoli risgiau pontio.

- **Cymru Iachach** – Bydd gwell cynllunio digonolrwydd yn cefnogi plant i gael mynediad at lety sefydlog, priodol yn agos at eu cartref, sy’n hanfodol ar gyfer llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol; bydd canllawiau cliriach hefyd yn helpu i sicrhau nad yw gwendidau data a chynllunio yn tanseilio canlyniadau plant
- **Cymru Fwy Cyfartal** – Mae templedi safonedig a dyletswyddau cliriach yn lleihau’r amrywiad rhwng ardaloedd, gan helpu i sicrhau bod pob plentyn—waeth beth fo’u lleoliad—yn elwa o’r un lefel o gynllunio, tystiolaeth a chraffu, ac nad oes unrhyw grŵp dan anfantais oherwydd arferion anghyson neu gapasiti lleol.
- **Cymru o Gymunedau Cydlynol** – Bydd y cynllunio cryfach, mwy cyson a gefnogir gan y rheoliadau arfaethedig yn helpu mwy o blant i gadw mewn cysylltiad â’u teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan gefnogi perthnasoedd iach a sefydlogrwydd cymunedol, tra bod canllawiau a ddatblygir ar y cyd yn annog gwaith mwy cydgysylltiedig ar draws awdurdodau.
- **Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu** – Bydd y dull cynllunio strwythuredig a gefnogir gan y rheoliadau arfaethedig yn ei gwneud yn haws i awdurdodau nodi ac ymateb i anghenion lleoliadau cyfrwng Cymraeg, ac mae templedi cenedlaethol a rennir yn helpu i sicrhau bod ystyriaethau ieithyddol yn cael eu hymgorffori’n gyson ledled Cymru
- **Cymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang** – Mae gofyn am gynllunio cryfach sy’n seiliedig ar dystiolaeth a gefnogir gan y rheoliadau arfaethedig ochr yn ochr â chanllawiau a gynhyrchir ar y cyd yn hyrwyddo defnydd cyfrifol, moesegol o arian cyhoeddus ac yn cefnogi system ofal sydd wedi’i chynllunio o amgylch hawliau plant a chynaliadwyedd hirdymor, gan liniaru risgiau sy’n gysylltiedig â gweithredu anwastad.

### 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith rheoliadau arfaethedig 2026 yn cael ei monitro’n agos. Mae swyddogion yn ymgysylltu’n rheolaidd â phartneriaid ar draws y sector i gael gwybodaeth am y farchnad, gan gynnwys ymgysylltu’n rheolaidd ag awdurdodau lleol drwy ADSS Cymru a thrwy’r corff cenedlaethol o waith a wneir drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw.

O ran gwerthuso ehangach, disgwylir i’r polisi dileu elw cyffredinol fod yn destun gwerthusiad ffurfiol dros y blynyddoedd i ddod. Gan ddefnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o ymarfer Delphi 2024, rydym wedi comisiynu astudiaeth ddilynol i adnewyddu gwybodaeth y sector i asesu effeithiolrwydd y darpariaethau Dileu yn Neddf 2025 ac unrhyw ddeddfwriaeth ategol (gan gynnwys rheoliadau sy’n ymwneud â chynlluniau digonolrwydd). Mae’r dull gwerthuso hwnnw wedi’i gytuno gan Weinidogion a bydd yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â swyddogion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth i bennu’r dull gwerthuso mwyaf effeithiol. Bydd yn cynnwys casglu data llinell sylfaen ar ddechrau trefniadau newydd yn 2026.

Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio canfyddiadau Delphi 2024, yn asesu canfyddiadau

cyfredol o Ddeddf 2025, ac yn nodi risgiau, rhagdybiaethau a meysydd consensws neu wahaniaeth newydd. Bydd hefyd yn cynhyrchu mewnbynnau gweithredadwy megis dangosyddion posibl, ffynonellau data ymarferol ac opsiynau gwerthuso.

Bydd yr astudiaeth ddilynol yn mabwysiadu methodoleg ffurfiol i ddarparu sylfaen dystiolaeth ehangach ac i gyfrif am ffactorau a risgiau allanol. Ar yr un pryd, bydd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol trwy'r Bwrdd Rhaglen Dileu Elw i gasglu barn a llunio'r dull gwerthuso ar y cyd.

Yn amodol ar nodi cyflenwr addas, disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau yn ystod 2026. Bydd yr amserlen hon yn golygu bod modd paratoi'r fanyleb werthuso ffurfiol a dechrau'r gwaith yn 2026/27.